Ceri McEvoy
Cyfarwyddwr Datblygu
Director of Development
Rhieni dros Addysg Gymraeg
Tŷ Cymru, Greenwood Close,
Parc Busnes Porth Caerdydd
Caerdydd CF23 8RD
Ffôn 029 2073 9207
Symudol 07912 175 403
Ebost ceri@rhag.net

18 Mehefin 2018

Y Cynghorydd Aaron Shotton
Arweinydd
Cyngor Sir y Fflint
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint CH7 6NB

Annwyl Gynghorydd Shotton

Par: Cynnig i ddiddymu cludiant am ddim i ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg

Ysgrifennaf atoch ar ran RhAG, i bwyso arnoch i beidio â symud ymlaen gyda chynlluniau i ddiddymu darpariaeth cludiant am ddim i ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Rydym yn ymwybodol bod y ddogfen *'Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol – Adolygiad Polisi'* yn dod gerbron y cabinet yfory - Dydd Mawrth 19 Mehefin - ac rydym yn gwrthwynebu'n gryf y cynigion sy'n cael eu hamlinellu yn y ddogfen honno.

Yn wir, siom o'r mwyaf yw bod cynigion o'r fath hyd yn oed yn cael eu hystyried ac mae gennnym bryderon difrifol iawn am oblygiadau unrhyw gamau o'r fath.

Mae'r cynnig nid yn unig yn milwrio yn erbyn Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, sy'n gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i hyrwyddo mynediad at addysg Gymraeg, ond hefyd yn tanseilio Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Sir, sydd fel y gwyddoch, yn gosod cyfrifoldeb statudol i gynyddu'r niferoedd sy'n derbyn addysg Gymraeg a'r gyfradd trosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd. Yn wir, byddai gweithredu'r polisi hwn yn peryglu hyfywedd rhai o ysgolion cyfrwng Cymraeg y sir. Ymhellach at hynny, byddai'r cynnig yn mynd yn groes i bolisi Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Ymddengys mai Cyngor Sir y Fflint yw'r unig sir yng Nghymru nad yw'n ystyried mai'r "ysgol addas agosaf" yw'r ysgol Gymraeg agosaf os yw rhieni'n dewis addysg Gymraeg. Gofynnwn pa neges y mae hynny'n ei roi i drigolion y sir ac i weddill Cymru?

Tra bod siroedd eraill yn mynd ati i agor ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd, mae Cyngor Sir y Fflint – sir a fu unwaith mor arloesol o ran twf addysg Gymraeg - yn trafod cynigion sy'n andwyol i'r Gymraeg ym mhob ffordd posibl.

Pwyswn arnoch i berchnogi'r cyfrifoldeb o sicrhau bod addysg Gymraeg yn hygyrch ac mor hwylus â phosib i bawb sy'n dymuno manteisio arni. Mae darparu cludiant am ddim yn allweddol i sicrhau cydraddoldeb i addysg Gymraeg, gan fod y pellteroedd y mae'n rhaid i ddisgyblion deithio gymaint yn fwy. Yn wir, mae cludiant am ddim yn unioni'r cam hwnnw.

Felly gan fod y cynnig yn gwrthdaro yn erbyn deddfwriaeth a pholisi cenedlaethol, hyderwn y byddwch yn rhoi'r cynnig i'r neilltu ac yn bwrw ati'n ddiymdroi i weithredu yn fwy rhagweithiol a chadarnhaol o blaid twf addysg Gymraeg yn y Sir.

Yn gywir

Wyn Williams
Cadeirydd Cenedlaethol RhAG

cc. Aelodau Cabinet Cyngor Sir y Fflint
Claire Homard, Prif Swyddog dros dro Addysg ac Ieuenctid, Cyngor Sir y Fflint

Rhieni dros Addysg Gymraeg
Parents for Welsh Medium Education

Ceri McEvoy
Cyfarwyddwr Datblygu
Director of Development
Rhieni dros Addysg Gymraeg
Tŷ Cymru, Greenwood Close,
Parc Busnes Porth Caerdydd
Caerdydd CF23 8RD
Ffôn **029 2073 9207**
Symudol **07912 175 403**
Ebost ceri@rhag.net

18 June 2018

Councillor Aaron Shotton
Leader
Flintshire County Council
County Hall
Mold
Flintshire CH7 6NB

Dear Councillor Shotton

Re: Proposal to abolish free transport for pupils attending Welsh-medium schools

I am writing to you on behalf of RhAG, to urge you not to proceed with plans to abolish free transport provision for Welsh-medium schools.

We are aware that the *'Home to School Transport - Policy Review'* will be discussed by cabinet tomorrow - Tuesday 19 June - and we strongly oppose the proposals outlined in that document .

In fact, it is truly disappointing that such proposals are even being considered and RhAG has some very serious concerns about the implications of any such action.

The proposal not only flies in the face of the Learner Travel (Wales) Measure 2008, which places a duty on Local Authorities to promote access to Welsh medium education, but also undermines the Local Authority's Welsh in Education Strategic Plan, which as you know, places a statutory responsibility on Flintshire Council to increase the numbers receiving Welsh medium education and the transition rates from primary to secondary. Indeed, it is our belief that implementing this policy would seriously jeopardise the viability of some of the county's Welsh-medium schools. Furthermore, the proposal is contrary to the Welsh Government's policy of having a million Welsh speakers by 2050.

Flintshire County Council appears to be the only LA in Wales that does not consider that the "nearest suitable school" is the nearest Welsh language school if parents choose Welsh medium education. What message does that give to local residents and to the rest of Wales?

While other LAs are opening new Welsh-medium schools, Flintshire County Council - a county that was once a pioneer in the growth of Welsh-medium education - discusses proposals that are detrimental to the Welsh language in every possible way.

We urge you therefore to ensure that Welsh-medium education is readily available and accessible to everyone who wants to take advantage of it. Providing free transport is key to ensuring parity of opportunity, as the distances that pupils have to travel are so much greater. Free transport therefore goes some way towards rectifying this inequality.

As the proposal conflicts against national legislation and policy, we trust that you will discard these plans and implement more proactive and positive policies which will ensure the growth of Welsh-medium education in Flintshire.

Regards

Wyn Williams
RhAG National Chair

cc. Cabinet Members, Flintshire County Council
Claire Homard, Interim Chief Officer Education and Youth, Flintshire County Council